**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Tachwedd 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Cynghorydd Hugh Evans**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tom Booty, Rheolwr Economeg a Datblygu Busnes**

**Teitl: Cynlluniau Tref ac Ardal**

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar y Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunodd y Cabinet yn flaenorol i ehangu Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal i gynnwys y cymunedau gwledig cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r Cabinet i gymeradwyo cam cyntaf y Cynlluniau Ardal newydd a rhoi sêl bendith ar y blaenoriaethau gwariant o'r pot/cronfa Cyllid Blaenoriaeth Cynlluniau Tref ac Ardal. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi amserlen i'r Cabinet i gymeradwyo cynlluniau yn y dyfodol, ynghyd â'r sefyllfa ariannol gyfredol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Yr argymhellion yw i'r Cabinet:

1. Gymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Llangollen, Corwen a Llanelwy;
2. Cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau y manylir arnynt yn y Cynlluniau Ardal y cyfeirir atynt uchod;
3. Nodi'r amserlen ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal yn y dyfodol;
4. Nodi'r datganiad sefyllfa ar y sefyllfa ariannol gyfredol i Gynlluniau Tref ac Ardal.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Cynllun Tref ac Ardal Llangollen

Mae Cynllun Tref ac Ardal Llangollen ynghlwm fel Atodiad 1. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Ardal Aelodau (MAG) Dyffryn Dyfrdwy ar 11 Tachwedd 2013, ac rydym yn awr yn gofyn am sêl bendith y Cabinet ar y Cynllun a'r blaenoriaethau canlynol ynghyd â'r ymrwymiadau cyllid cysylltiedig:

| Blaenoriaeth: | Gofyniad Cyllid |
|---|---|
| Adroddiad Peiriannydd ar ddichonoldeb darparu llwybr troed ar ddarn peryglus o'r A542 | £5,000 |
| Adroddiad Prisio i Fynwent yn Llandysilio yn Iâl | £500 |
| Prynu atodiad graeanu i dractorau (yn cynnwys £500 am adroddiad a chostau refeniw 5 mlynedd) | £13,000 |
| **CYFANSWM Y GOFYNNIR AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£18,500** |

### 4.2 Cynllun Tref ac Ardal Corwen

Mae Cynllun Tref ac Ardal Corwen ynghlwm fel Atodiad 2. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan MAG Dyffryn Dyfrdwy ar 11 Tachwedd 2013, ac rydym yn awr yn gofyn am sêl bendith y Cabinet ar y Cynllun a'r blaenoriaethau canlynol ynghyd â'r ymrwymiadau cylild cysylltiedig:

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Cyllid** |
|---|---:|
| Arian cyfatebol ar gyfer Astudiaeth Ddichonoldeb ar Ddefnyddiau Cymunedol i adeiladau Ysgol segur | £5,000 |
| Darparu Clwb Ieuenctid | £3,000 |
| Hyfforddiant a Chymorth Busnes i ddatblygu busnesau newydd | £10,000 |
| **CYFANSWM Y GOFYNNIR AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£18,000** |

### 4.3 Cynllun Dinas ac Ardal Llanelwy

Mae Cynllun Dinas ac Ardal Llanelwy ynghlwm fel Atodiad 3. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan MAG Dyffryn Dyfrdwy ar 11 Tachwedd 2013, ac rydym yn awr yn gofyn am sêl bendith y Cabinet ar y Cynllun a'r blaenoriaethau canlynol ynghyd â'r ymrwymaidau cylild cysylltiedig:

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Cyllid** |
|---|---:|
| Costau cyfreithiol ac eraill i drosglwyddo Caeau Chwarae Rhuallt i'r Cyngor Cymuned | £12,000 |
| Ymestyn y llinellau melyn dwbl yn Nhrefnant | £2,000 |
| Ymestyn y gilfan yng Nghefn Meiriadog | £5,000 |
| Mynegbyst i safleoedd hanesyddol ym Modelwyddan | £5,000 |
| **CYFANSWM Y GOFYNNIR AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£24,000** |

### 4.4 – Amserlen ar gyfer y Cynlluniau Tref ac Ardal sy'n weddill

Mae Atodiad 4 yn manylu ar yr amserlen ar gyfer y 9 Cynllun Tref ac Ardal, ac isod dangosir pryd y byddant yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet gydag argymhellion am ddyraniadau cylild ar gyfer y blaenoriaethau:

| **Cynllun** | **Eiriolwr** | **Cynrychioli'r Swyddog EDB** | **Cymeradwyaeth y Cabinet** |
|---|---|---|---|
| **Llangollen** | Cyng Stuart Davies | Carolyn Brindle | 26 Tach 2013 |
| **Corwen** | Cyng Huw L Jones | Carolyn Brindle | 26 Tach 2013 |
| **Rhuthun** | Cyng Huw Hilditch-Roberts | Emma Wynne | 17 Rhag 2013 |
| **Dinbych** | Cyng Gwyneth Kensler | Emma Wynne | 25 Mawrth 2013 |
| **Llanelwy** | Cyng Dewi Owens | Helen Telford | 26 Tach 2013 |
| **Rhuddlan** | Cyng Arwel Roberts | Helen Telford | 25 Mawrth 2013 |
| **Prestatyn** | Cyng Paul Penlington | Mark Dixon | 17 Rhag 2013 |
| **Rhyl** | Cyng Joan Butterfield | Mark Dixon | 25 Mawrth 2013 |
| **Bodelwyddan** | Cyng Alice Jones | Helen Telford | I'W GADARNHAU |

O ystyried maint y gymuned, a'r potensial twf sylweddol drwy'r dyraniad tir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar, cytunodd y Cabinet yn flaenorol (Ebrill 2013) i ddatblygu Cynllun Tref ar wahân i Fodelwyddan. Bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn fuan a bydd yr amserlen ar ei gyfer yn cael ei adrodd yng Nghabinet mis Rhagfyr unwaith bod trafodaethau gydag Eiriolwr y Cynllun wedi'u cynnal.

### 4.5 Y Sefyllfa Ariannol Gyfredol o ran y Cynlluniau Tref ac Ardal

Cyfanswm Cyllid i Gynlluniau Tref ac Ardal (hyd at 31 Mawrth 2016):

| | Refeniw | Cyfalaf | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| Cyfalaf | | £680,000 | £680,000 |
| 2011/12 tanwariant | £191,000 | £0 | £191,000 |
| 2012/13 Cyllideb Refeniw | £356,000 | | £356,000 |
| 2013/14 Cyllideb Refeniw | £356,000 | | £356,000 |
| **Is-Gyfanswm hyd at 31 Maw.14** | **£903,000** | **£680,000** | **£1,583,000** |
| | | | |
| 2014/15 Cyllideb Refeniw | £356,000 | | £356,000 |
| 2015/16 Cyllideb Refeniw | £356,000 | | £356,000 |
| **CYFANSWM** | **£1,615,000** | **£680,000** | **£2,295,000** |

Gwnaed ymrwymiadau o £600,600 yn erbyn cyllideb 2012/13 a 2013/14 yng nghyfarfod Cabinet 15 Ionawr 2013 fel y dangosir yn y tabl isod:

| Tref: | 2012/13 a 2013/14 |
|---|---|
| **Prestatyn** | £145,000 |
| **Llanelwy** | £60,800 |
| **Rhuddlan** | £47,000 |
| **Dinbych** | £135,800 |
| **Rhuthun** | £55,000 |
| **Corwen** | £77,000 |
| **Llangollen** | £80,000 |
| **CYFANSWM** | **£600,600** |

Yng nghyfarfod Eiriolwyr y Cynlluniau Tref ar 30 Medi 2013, cymeradwywyd yr elfennau arian cyfatebol canlynol ar gyfer Cynllun Cyfenter o'r dyraniad Cynlluniau Tref:

| Ardal: | CYFANSWM |
|---|---|
| Bragdy Cwrw Iâl | £23,394 |
| Siop Gymunedol Llanarmon | £18,026 |
| Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen | £18,426 |
| **CYFANSWM** | **£59,846** |

Felly mae'r sefyllfa o ran ymrwymiadau cyllid fel a ganlyn:

| Tref: | Cymeradwywyd Ionawr 13 | Arian Cyfatebol Cyfenter | Argymhellwyd eu cymeradwyo Tach 13 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **Prestatyn** | £145,000 | | | £145,000 |
| **Llanelwy** | £60,800 | | £24,000 | £84,800 |
| **Rhuddlan** | £47,000 | | | £47,000 |
| **Dinbych** | £135,800 | | | £135,800 |
| **Rhuthun** | £55,000 | £41,420 | | £96,420 |
| **Corwen** | £77,000 | £18,426 | £18,000 | £113,426 |
| **Llangollen** | £80,000 | | £18,500 | £98,500 |
| **CYFANSWM** | **£600,600** | **£59,846** | **£60,500** | **£720,946** |

I grynhoi'r sefyllfa hyd at 31 Mawrth 2014

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y dyraniad cyllid i Gynlluniau Tref ac Ardal hyd at 31 Mawrth 2014 | **£1,583,000** |
| Ymrwymiadau hyd yma | **£720,946** |
| Gweddill heb ei ddyrannu hyd at 31 Mawrth 2014 | **£862,054** |

Mae ffigyrau'r gweddill nas dyrannwyd yn y tabl uchod yn rhagdybio y bydd yr ymrwymiadau presennol i gyd (£716,946) wedi cael eu gwario erbyn 31 Mawrth 2014. O

ystyried cyfradd y gwariant ar hyn o bryd, mae hyn yn ymddangos yn annhebygol, a bydd y sefyllfa ddiweddaraf ar wariant hyd yma a'r rhagolwg hyd ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet. Ceir adroddiad llawnach ar y cynnydd hyd yma yng nghyfarfod Cabinet mis Rhagfyr.
Y tu hwnt i fis Mawrth 2014 mae yna ddyraniad blynyddol pellach o £356,000 yn erbyn Cynlluniau Tref ac Ardal yn ôl y proffiliau cyllideb presennol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

**Blaenoriaeth - Datblygu'r Economi Leol -** Bydd y Cynlluniau Tref ac Ardal yn ddogfen greiddiol o safbwynt cyflawni'r flaenoriaeth hon ar lefel leol, a bydd y Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig yn manylu ar y dulliau cyflawni a fydd yn rhoi hwb i hyder a buddsoddiad y sector preifat gan greu cyfleoedd newydd i gael swyddi a busnesau.

**Blaenoriaeth – Gwella'n Ffyrdd –** bydd y Cynlluniau'n helpu i adnabod problemau a thrwy hynny sicrhau fod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y lleoliadau iawn a bod gwelliannau ffordd yn digwydd yn y llefydd iawn.

**Blaenoriaeth - Strydoedd Glân a Thaclus** - bydd y Cynlluniau'n helpu i adnabod problemau a thrwy hynny sicrhau fod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y lleoliadau iawn a bod gwelliannau i'r lleoedd cyhoeddus yn cael eu gwneud yn y llefydd iawn.

**Blaenoriaeth – Moderneiddio'r Cyngor fel ei fod yn cyflawni arbedion effeithiolrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid –** bydd y Cynlluniau yn fecanwaith allweddol ar gyfer alinio adnoddau gwasanaethau'r Cyngor i wireddu blaenoriaethau a adnabuwyd gan gymunedau lleol mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gweler adran 4.5 uchod am wybodaeth ariannol.

Mae'r Cynlluniau Tref ac Ardal yn adnabod problemau, gweithredoedd a blaenoriaethau a ddatblygwyd drwy ymgynghoriad â'r cymunedau hynny, a dylent fod yn ddogfen allweddol a fydd yn sail i weithgaredd a blaenoriaethau pob un o Wasanaethau Sir Ddinbych.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Mae Atodiad 4 yn rhoi trosolwg bras o'r ymgynghoriad helaeth a wnaed wrth gynhyrchu'r Cynlluniau Ardal, a ddatblygir mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Ymgynghorwyd â Phenaethiaid Gwasanaeth Cyngor Sir Ddinbych, mudiadau'r trydydd sector (drwy DVSC), y trigolion a'r gymuned fusnes (drwy rai cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy arolygon ar y we).

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae'r gwariant a gynigir wedi'i gynnwys mewn dyraniadau cyllid sy'n bodoli'n barod. Ni ddylai unrhyw brosiect cyfalaf ddechrau heb arfarniad priodol a dylai unrhyw oblygiadau refeniw sy'n deillio o brosiectau gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae yna risg y bydd datblygu'r cynlluniau yn codi gobeithion ac y byddai methu â'u cyflawni yn niweidio enw da'r Cyngor gyda Chynghorau Tref a Chymuned a rhanddeiliaid eraill. Rheolir hyn drwy barhau i ymgysylltu a chyfathrebu â'r rhanddeilaid perthnasol am y datblygiad a sut mae'r cynlluniau'n cael eu cyflawni.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 / Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972